# Tyfu i Garu Tomatos

## Canllaw i rieni a gofalwyr






Shaun the Sheep and Shaun's image are trade marks of Aardman Animations Limited 2025.

# Yn galw rhieni a gofalwyr!

Y tymor hwn bydd eich plentyn yn tyfu eu tomatos eu hunan o hadau i ffrwyth. Bydd eich ffermwr bach yn plannu eu hadau tomatos yn yr ysgol yn mis Ebrill ac yn trawsblannu eu planhigion i botiau mwy (wedi eu ail-gylchu) yn mis Gorffennaf. Byddant yn dod â'u planhigion adref ar ddiwedd y tymor i barhau i dyfu dros y gwyliau haf gyda eich cefnogaeth.



Mae modd i'r planhigion tyfu ar silff ffenest, balconi neu tu fas. Bydd gan eich plentyn siart wal a phecyn o sticeri sy'n dilyn siwrne gyffrous y planhigyn tomato.

# Pam tyfu?

**Rydym eisiau i blant garu llysiau** ac un o'r ffyrdd i ddatblygu y cariad yna yw drwy dyfu eu hunan. Dyma pam rydym wedi dylunio ein prosiect tyfu hwyl gyda chymorth arbenigwyr newid ymddygiad, addysgwyr, botanegwyr, diddanwyr a garddwyr.

Mae tyfu llysiau yn wych am sawl rheswm. Nid yn unig mae'n hwyl, ond mae ymchwil yn dangos fod plant yn llawer mwy tebygol o drio bwyd y maent wedi helpu tyfu.





"Does dim byd fel y wyrth o hedyn bach yn dod o'r pridd, yn tyfu, blodeuo a chynhyrchu bwyd ffresh. Pan ry'ch chi wedi tyfu unwaith, byddwch eisiau tyfu am byth. Mae gwybod sut i dyfu bwyd nid yn unig yn llawer o hwyl, mae hefyd yn sgil ar gyfer bywyd ac un ni ddylai ein plant fod hebddo."

CHRIS COLLINS, CYN-ARDDWR AR BLUE PETER

@CMCOLLINS_HORT

# Gofalu

**Bydd eich ffermwyr yn dod â'u planhigion adref dros wyliau'r haf.** Bydd eich ysgol yn rhoi gwybod i chi pryd, plis gwnewch drefniadau i'r planhigion deithio adref yn saff. Peidiwch â phoeni, mae planhigion tomatos yn wydn iawn.

Y gyfrinach i ofalu am blanhigion tomato yw eu gosod mewn man heulog ar silff ffenest, balconi neu tu fas (gan eu troi yn ddyddiol) a rhoi dŵr yn rheolaidd pan fydd y compost yn teimlo'n sych. Hefyd ceisiwch dynnu blagur newydd sydd yn tyfu o waelod lle mae'r ddeilen yn ymuno â'r goes. Enw hyn yw 'pinsho' neu 'pinching out' yn Saesneg.

Mwy am ofalu

# Cynhaeafu

Gobeithio bydd y plant yn gweld ffrwythau hyfryd yn ymddangos dros yr haf ac yn barod ar gyfer cynhaeafu yn mis Medi. Un o'r ffyrdd gorau o fwyta tomatos ffresh wedi eu tyfu adref yw yn syth o'r goeden! Gallwch annog eich ffermwyr bach i'w trio yn ffresh gan ddisgrifio sut mae nhw'n blasu. Os na, mae ganddon ni ddigon o ryseitiau tomato a syniadau am fyrbrydiau ar ein gwefan yma...


**Ryseitiau VegPower!**

Weithiau dyw natur ddim yn dod i ffrwyth. Ond peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n cael unryw domatos, beth am gyfri'r dail neu fesur pa mor dal yw'r planhigyn yn lle.

# Adnoddau a lawrlwythiadau

Peidiwch ag anghofio gosod y siart wal fyny fel bod eich plentyn yn gallu parhau â'u antur tyfu yn defnyddio'r sticeri. Cliciwch isod ar gyfer gwybodaeth ychwanegol, cyngor, deunydd i lawrlwytho gweithgareddau a chymorth.

**Mwy o adnoddau**



# RHANNWCH EICH SIWRNE TYFU

**Rydym wrth ein bodd yn gweld sut mae eich planhigion tomato yn tyfu. Rhannwch eich antur tyfu ar gyfryngau cymdeithasol i deuluoedd eraill fwynhau.**




Ein hashnod yw

**#GrowingToLove**

**#TyfuiGaru**

# Tyfu i Garu Tomatos

## DIOLCH I'N PARTNERIAID



westland

unwins

Hazera
Growing Together

AARDMAN

VEGPOWER

Shaun the Sheep and Shaun's image are trade marks of Aardman Animations Limited 2024.